# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 12 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **14:00 - 16:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Mike Hedges**
**Julie Morgan**
**Gwyn R Price**
**Jenny Rathbone**
**Aled Roberts**
**Jocelyn Davies**

Tystion:

**David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru**
**Dr Jean White, Llywodraeth Cymru**
**Claire Foster, All Wales Maternity Services Implementation Group**
**Kath McGrath, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf**
**Paul Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**
**Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf**

Staff y Pwyllgor:

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.2 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chyd-Gadeiryddion Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru Gyfan

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chyd-Gadeiryddion Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru Gyfan. Yn benodol, bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch:

- Y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru
- Lefelau staffio a hyfforddiant ar gyfer staff
- Y ddarpariaeth o wasanaethau newyddenedigol
- Cyfraddau toriadau Cesaraidd
- Adolygiad o'r rhaglen bwydo ar y fron yng Nghymru

**Cam Gweithredu:**

2.2 Cytunodd Llywodraeth Cymru a Chyd-Gadeiryddion Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru Gyfan i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am sut y mesurir a yw rhieni yn hyderus a gwybodus, ar ôl trafodaethau priodol;
- Data sy'n amlinellu nifer yr ymarferwyr y mae angen iddynt ddefnyddio dull hyfforddi Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr;
- Rhagor o wybodaeth am recriwtio neonatolegyddion yng Nghymru gan gynnwys manylion am y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y neonatolegyddion;
- Linc i waith ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y berthynas rhwng cyfraddau BMI, beichiogrwydd a thoriadau Cesaraidd;
- Rhagor o wybodaeth am nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir ym maes bydwreigiaeth;
- Amserlen ar gyfer cyflwyno offer electronig i fonitro cyflymder calon y ffetws ar gyfer gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol;
- Rhagor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed gan Fyrddau Iechyd Lleol o ran gweithredu'r pecyn cymorth ar doriadau Cesaraidd.

## 3. Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru - Tystiolaeth gan Fyrddau Iechyd Lleol

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg. Yn benodol, bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch:

- Y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru;
- Lefelau staffio a hyfforddiant ar gyfer staff;
- Y ddarpariaeth o wasanaethau gofal newyddenedigol;
- Bwydo ar y fron; a
- Cyfraddau toriadau Cesaraidd

**Cam Gweithredu:**

Cytunodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ddarparu:

- Eglurhad am y gyfradd bresennol ar gyfer pryd y mae menywod yn dod i gysylltiad am y tro cyntaf â swyddog meddygol proffesiynol (boed yn feddyg teulu neu'n fydwraig) cyn eu degfed wythnos o feichiogrwydd.
- Gwybodaeth am y broses o werthuso'r arbrawf ar gyd-leoli unedau esgor risg isel ac uchel.
- Gwybodaeth am eu cyfraddau toriadau Cesaraidd o fis i fis.

Cytunodd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg i ddarparu:

- Gwybodaeth am eu cyfraddau toriadau Cesaraidd o fis i fis.
- Gwybodaeth am ei sefyllfa o ran darparu'r lefelau staffio a argymhellir ar gyfer staff meddygol a nyrsys, a chyrraedd y gymhareb 90:10 o staff cymwysedig ac anghymwys.
- Gwybodaeth am ddatblygu grwpiau cymorth i gymheiriaid.

## 4. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor:

- Gofnodion y cyfarfod blaenorol; a
- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am faterion sy'n codi o lythyr y Gweinidog Cyllid ynghylch y *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)* (Papur 2).

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 7:

## 6. Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru - Aelodau yn trafod y dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y prif faterion a themâu sy'n codi o'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliad byr i Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.